



Cronfa ddata plant sy'n colli addysg

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

Eich cyfeiriad e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **25 Ebrill 2024** i'r cyfeiriad hwn:

Yr Is-adran Tegwch mewn Addysg
Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad hwn:

e-bost: CME.Ymgynghoriad@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – Ar hyn o bryd nid yw awdurdodau lleol yn gwybod am bob plentyn yn eu hardal ond maent yn dal i fod yn gyfrifol amdanynt. Yn eich barn chi, a fydd y gofynion yn y rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd neu blant sy'n colli addysg?

Byddant	<input checked="" type="checkbox"/>	Na fyddant	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
----------------	-------------------------------------	-------------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

O ateb 'na fyddant', eglurwch pam, yn eich barn chi, na fydd y rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r ddyletswydd hon.

Cwestiwn 2 – A yw'r cynnig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni ei ddyletswydd adran 175 o dan Ddeddf Addysg 2002, sef ymgymryd â'u swyddogaethau addysg gyda'r bwriad o ddiogelu a hybu lles plant?

Ydy	<input type="checkbox"/>	Nac ydy	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	-------------------------------------	-----------------------	--------------------------

O ateb 'nac ydy', eglurwch pam, yn eich barn chi, na fydd y rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r ddyletswydd hon.

Hoffem feddwl y bydd y rheoliadau newydd yn caniatáu i Awdurdodau Lleol gyflawni eu dyletswydd tuag at bob plentyn, ond tybed a oes unrhyw system yn gwarantu hynny'n llwyr. Credwn fod y cynnig arfaethedig yn symud i'r cyfeiriad cywir o ran caniatáu awdurdodau i gyflawni eu dyletswyddau. Gan nad oes system ddibynadwy yn bodoli ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd i unioni'r sefyllfa gyfredol.

Cwestiwn 3 – O dan y rheoliadau, bydd byrddau iechyd lleol yn datgelu'r wybodaeth yn yr Atodlen (enw, cyfeiriad, rhywedd a dyddiad geni plentyn) i'r awdurdod lleol fel y gall ddatblygu cronfa ddata plant sy'n colli addysg.

- i) A ydych yn cytuno bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn rhesymol ac yn gymesur i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Rhowch wybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch ateb.

Gwybodaeth sylfaenol yw'r wybodaeth y gofynnir amdani. Os oes dyletswydd gyfreithiol ar awdurdod lleol i ymgymryd â swyddogaethau addysg pob plentyn, gyda'r bwriad o ddiogelu a hybu lles plant, yna tybiwn fod angen y lleiafswm hyn o wybodaeth.

- ii) A ydych yn cytuno bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn ddigonol i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	-------------------------------------

Os nad ydych yn credu bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn ddigonol, nodwch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn yr Atodlen.

Cwestiwn 4 – A oes systemau a phrosesau amgen a fyddai'n galluogi'r awdurdod lleol i adnabod plentyn nad oes ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol amdano?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	-------------------------------------

O ateb 'oes', nodwch beth yw'r systemau a'r prosesau hynny.

Cwestiwn 5 – Yn eich barn chi, pa fanteision ac anfanteision, os oes rhai, fyddai'n deillio o ddatgelu'r data gofynnol i boblogi'r gronfa ddata? Cwblhewch yr adran sy'n berthnasol i chi.

i) Rhieni a gofalwyr

ii) Plant a phobl ifanc

iii) Byrddau iechyd lleol a contractwyr meddygol cyffredinol

iv) Awdurdodau lleol

v) Arall

Bydd rhai rhieni yn gweld y gofyniad hwn yn fygythiad i'w preifatrwydd a'u hawliau fel unigolion. Os bydd awdurdodau lleol yn delio'n sensitif gyda'r wybodaeth ac yn rhoi sylw gofalus i'r hyn sy'n addysg 'effeithiol', yn y pendraw byddem yn hoffi meddwl y bydd modd darbwylllo rhieni bod y wybodaeth a gesglir yn angenrheidiol a bod y broses ei hun wedi ei mabwysiadu yn gyfan gwbl er lles a diogelwch eu plant.

Cwestiwn 6 – Mae'r rheoliadau drafft yn cynnig bod byrddau iechyd lleol yn datgelu gwybodaeth i awdurdodau lleol yn flynyddol. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Os nad ydych yn cytuno, pa mor aml y dylid rhoi'r wybodaeth hon i awdurdodau lleol yn eich barn chi, a pryd fyddai'r adeg fwyaf priodol?

Mae'n bwysig bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n rheolaidd, ond mae'n anodd gwybod a yw datganiad blynyddol yn ddigonol ai peidio. Ar y naill law, mae'n rhaid sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n rheolaidd a bod hynny'n digwydd o fewn cyfnod ymarferol. Ar y llaw arall, mae sefyllfaoedd teuluoedd a phlant yn gallu newid yn aml iawn. Yn achos rhai plant, byddant wedi symud sawl gwaith o fewn blwyddyn. Yr hyn sy'n bwysig yw nad yw plant yn cwmpo drwy'r rhwyd.

Cwestiwn 7 – Beth fyddai goblygiadau datganiad data amlach o ran technoleg, prosesau gweinyddol ac adnoddau i'r canlynol:

i) byrddau iechyd lleol

--

ii) awdurdodau lleol

--

iii) arall

Mae'n bwysig sefydlu dull ymarferol a hwylus o drosglwyddo data ond sydd hefyd yn sicrhau diogelwch a lles plant.

Cwestiwn 8 – Pa unigolion yn yr awdurdod lleol y byddai angen iddynt gael mynediad at y gronfa ddata er mwyn cyflawni eu swyddogaethau?

Y lleiafrif o weithwyr posibl ond unigolion sy'n ymdrin ag addysg a chynhwysiant. Dylid nodi'n glir o'r cychwyn pwy fyddai â mynediad at y data, gan sefydlu o'r cychwyn ar bwy y mae angen y wybodaeth.

Byrddau iechyd lleol (9 i 12)

Cwestiwn 9 – A oes unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 10 – A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

Ydynt	<input type="checkbox"/>	Nac ydynt	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 11 – A oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o weithgarwch datgelu a phrosesu data?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Cwestiwn 12 – A oes unrhyw oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau a materion technegol mewn perthynas â phrosesu a datgelu'r data gofynnol i awdurdodau lleol?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Contractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol (13 i 14)

Cwestiwn 13 – A oes unrhyw risgiau i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 14 – A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

Ydynt	<input type="checkbox"/>	Nac ydynt	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Awdurdodau lleol (15 i 19)

Cwestiwn 15 – Yn eich barn chi (yr awdurdod lleol), a yw eich systemau a'ch prosesau plant sy'n colli addysg presennol yn eich galluogi chi i fod yn hyderus eich bod yn ymwybodol o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ardal yr awdurdod lleol?

Ydynt	<input type="checkbox"/>	Nac ydynt	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 16 – A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

Ydynt	<input type="checkbox"/>	Nac ydynt	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 17 – A oes unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 18 – A oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o weithgarwch prosesu?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Cwestiwn 19 – A oes unrhyw oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau a materion technegol mewn perthynas â phrosesu'r data a geir gan fyrddau iechyd lleol?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 20 – Yn eich barn chi, a allai unrhyw beth yn y rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchoddedig?

Gallai	<input type="checkbox"/>	Na allai	<input type="checkbox"/>	Ddim yn gwybod	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	-----------------------	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae'n bwysig bod y dehongliad o 'addysg effeithiol' yn rhoi ystyriaeth i ofynion pobl â nodweddion gwarchoddedig. Pwy sy'n penderfynu beth yw 'addysg effeithiol'?

Cwestiwn 21 – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y rheoliadau drafft ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Wrth ystyried 'addysg effeithiol', mae'n bwysig rhoi sylw i sicrhau bod cyfle i ddisgyblion dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gael y cyfle i astudio Cymraeg fel pwnc.

Cwestiwn 22 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r rheoliadau drafft er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Sylwadau ategol

Sicrhau bod cyfleoedd disgyblion i astudio'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu hystyried wrth bennu a yw addysg yn 'effeithiol' ai peidio. Ni ddylai derbyn addysg yn y cartref fod yn ffordd o osgoi dysgu'r Gymraeg.

Cwestiwn 23 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: